

# Dadorchuddio Patagonia: ‘Tŷ Camwy’ gan Menna George
# Y Cymro, 18 Tachwedd, 2000

Yr un modd â llawer o’r athrawon gwirfoddol a chyflogedig o’n blaen ni, yn Nhy Camwy ar ben uchaf Stryd Michael D. Jones, Gaiman rydw i (Menna) a Nans wedi ymgartrefu ers mis Mehefin eleni.

Mae Tŷ Camwy (a adeiladwyd ar droad yr ugeinfed ganrif) wedi ei leoli drws nesaf i Goleg Camwy, ac yn nodweddiadol o hen dai’r Wladfa. Ty unllawr o fric coch lleol a tho sinc yw, ac o’r heol mae’n ymddangos yn dwyllodrus o fach.

Ym mhrif ran y ty mae yna ddwy ystafell wely eang, ystafell ddosbarth a lolfa fawr. O bren wedi ei gwyro mae’r lloriau a’r nenfydau uchel yn y bedair ystafell yma wedi eu gwneud. Yn yr ystafell ddosbarth a’r lolfa ceir y ddau dân nwy sy’n gwresogi’r ty cyfan. Yng nghefn y ty, mewn estyniad dipyn yn iau na gweddill y ty, mae’r gegin a’r ystafell ymolchi gyda’r holl offer cyfoes angenrheidiol.

Yn wreiddiol, gorchuddiwyd welydd mewnol Tŷ Camwy gan ‘fwd’ – sef cymysgedd o bridd trwm lleol a gwair, ond oblegid dirywiad naturiol, bu’n rhaid cyfnewid hwn am sment eleni ym mhob un o’r ystafelloedd heblaw am yr ystafell ddosbarth. Yn y lolfa, serch hynny, gadawyd wal yr aelwyd yn noeth, ac mae’r fricen goch yn cyfoethogi’r awyrgylch cartrefol a greir gan y lle tân pren godidog.

Wrth gefn y ty mae yna darn go helaeth o dir fydd yn ddefnyddiol ar gyfer cymdeithasu nawr bod y tywydd da wedi cyrraedd, ac o flaen y ty mae lawnt o sespeth wedi ei gosod yn lled ddiweddar. (Mae’n siwr bod rhai pobl yn gweld budd deublyg i’r lawnt yma ... yn gyntaf, mae’n harddu’r stryd, ac yn ail mae’n ffordd o sicrhau bod un ohonom o leiaf yn codi’n gymharol gynnar i’w dyfrhau cyn i’r haul tanbaid losgi’r borfa!)

Fel soniwyd eisioes, gwnaed gwaith adnewyddu helaeth ar y ty eleni a hynny gan griw hynod weithgar o gefnogwyr y gymuned Gymraeg a Chymreig yma yn Gaiman. Cyfranwyd yn ariannol yn helaeth iawn gan y gymuned leol gyfan i sicrhau gwelliant yn safon Tŷ Camwy. Mae diolch Nans a fi yn fawr iawn i bawb a fi’n rhan o’r ymbaratoi brwd ar ein cyfer. Mae Ty Camwy wir yn gartref i ni oblegid eu hymdrechion.